Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol

# Cwestiynau Cyffredin i Nanis (darparwyr gofal plant yn y cartref)

## C1. Os byddaf yn gofalu am blentyn neu blant yn un o'u cartrefi, a oes angen i mi gael fy nghymeradwyo?

Nac oes, cynllun gwirfoddol yw hwn ond bydd yn eich galluogi i brofi i'ch cyflogwr eich bod wedi bodloni'r meini prawf a bydd yn eu galluogi nhw i gael cymorth ariannol os byddant yn gymwys. Dylai hyn olygu y byddwch yn fwy tebygol o gael eich cyflogi.

## C2. Beth yw'r meini prawf ar gyfer y cynllun cymeradwyo gwirfoddol?

Y meini prawf ar gyfer cymeradwyo gofalwr plant yn y cartref (nani) o dan y cynllun hwn yw bod yr ymgeisydd:-

- dros 18 oed;
- yn meddu ar dystysgrif cymorth cyntaf pediatrig gyfredol;
- wedi cael gwiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS);
- yn meddu ar gymhwyster ar Restr Cymwysterau Gofynnol Gofal Cymdeithasol Cymru i weithio o fewn y Sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant:

Gellir dod o hyd i'r cymhwyster gofynnol ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru yn y Rhestr o'r Cymwysterau Gofynnol i weithio yn y maes blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru: Rhestr o'r Cymwysterau Gofynnol

## C3. Beth os nad oes gennyf un o'r cymwysterau a restrir uchod?

Gellir cael gafael ar wybodaeth bellach am gyfleoedd hyfforddiant, ac unrhyw gymorth ariannol lleol a allai fod ar gael i gyflawni cymwysterau gan y canlynol:

- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd Awdurdodau Lleol
- PACEY Cymru

Gall y Gymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY Cymru) gynnig cymorth i nanis a darparwyr gofal plant eraill yn y cartref yng Nghymru, neu gan AGC.

## C4. Faint fydd y gost i gael fy nghymeradwyo?

Cost cymeradwyo'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yw £55. Os bydd ymgeiswyr angen tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd hefyd, gellir gwneud cais amdani drwy AGC, y gost yw £50.60 - gweler y ddolen gysylltiedig Gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) | Arolygiaeth Gofal Cymru. Bydd yn rhaid i chi hefyd dalu £15.00 i wirio eich manylion personol a gellir gwneud hyn yn y swyddfa bost.

Mae cymeradwyaeth yn para am 12 mis felly bydd angen i chi ailymgeisio bob blwyddyn. Y ffi flynyddol am ailymgeisio yw £55. Sylwer bod gwiriad DBS yn ddilys am dair blynedd. Dylech ailymgeisio am wiriad chwech i wyth wythnos cyn i'ch cymeradwyaeth ddod i ben.

Os byddwch yn tanysgrifio i wasanaeth diweddaru DBS, bydd costau ymgeisio ac adnewyddu'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yn aros yn £55 cyn belled â'ch bod yn adnewyddu eich gwiriad â'r gwasanaeth diweddaru yn flynyddol.

## C5. Beth yw gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)?

Fel rhan o'r broses gymeradwyo mae'n ofynnol i ymgeiswyr wneud cais am wiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (gwiriad DBS). Dogfen yw gwiriad DBS sy'n cynnwys gwybodaeth a gedwir gan yr heddlu ac adrannau'r llywodraeth a gall cyflogwyr a sefydliadau gwirfoddol ei defnyddio i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel. Darperir datgeliadau gan DBS fel un o asiantaethau gweithredol y Swyddfa Gartref.

Mae angen gwiriad DBS ar y rhai sy'n gofalu'n rheolaidd am blant neu oedolion agored i niwed, yn eu hyfforddi, yn eu goruchwylio neu'n gyfrifol amdanynt ar eu pen eu hunain ac mae'n cynnwys manylion yr holl euogfarnau a gofnodwyd gan gynnwys euogfarnau wedi'u disbyddu a manylion unrhyw rybuddion a cheryddon. Mae hefyd yn cynnwys lefel ychwanegol o wiriadau â chofnodion heddlu lleol yn ogystal â gwiriadau â Chyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu a rhestrau adrannau'r llywodraeth o'r rhai sydd wedi'u gwahardd yn gyfreithiol rhag gweithio gyda phlant.

## C6. Ydych chi erioed wedi ystyried tanysgrifio i Wasanaeth Diweddaru DBS?

Am danysgrifiad blynyddol gallwch ymuno â **Gwasanaeth Diweddaru DBS**; bydd hyn yn eich galluogi i ddiweddaru eich Tystysgrif DBS a gallwch ddefnyddio'r un dystysgrif os byddwch yn symud o swydd i swydd, cyn belled â'u bod o fewn yr un gweithlu ac mai'r un math a lefel o wiriad sydd ei angen (Safonol neu Fanwl).

## C7. Beth os ydw i eisoes wedi cofrestru â Gwasanaeth Diweddaru DBS?

Os oes gennych dystysgrif DBS fanwl ar gyfer y gweithlu cywir rydych yn gwneud cais amdano a'ch bod eisoes yn tanysgrifio i'r Gwasanaeth Diweddaru, yna'r ffi gymeradwyo ar gyfer cais y flwyddyn gyntaf fydd £55 am na fydd angen i chi dalu cost gwiriad DBS. Rhaid i chi ddangos eich tystysgrif DBS wreiddiol i ni a rhoi eich cydsyniad i gynnal 'gwiriad statws' ar-lein i weld a oes unrhyw newidiadau ar eich tystysgrif.

**Pwysig:** Os na fyddwch yn talu'r ffi danysgrifio flynyddol ar gyfer Gwasanaeth Diweddaru DBS, bydd angen i chi wneud cais am wiriad DBS newydd.

## C8. Sut mae gwneud cais am gymeradwyaeth â'r Cynllun Cymeradwyo Gofal Plant?

Llenwch ffurflen gais a'i hanfon i'r cyfeiriad canlynol:

Cynllun Cymeradwyo Gofal Plant
Arolygiaeth Gofal Cymru
Swyddfeydd y Llywodraeth
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ
(Rhif ffôn: 0300 790 0126)
E-bost: AGC@llyw.cymru

Gellir cael gafael ar ffurflenni cais drwy'r ddolen hon ar ein gwefan :

Os byddwch yn cyflwyno eich cais drwy e-bost gwnewch yn siŵr eich bod yn atodi delweddau wedi'u sganio o'ch cymwysterau. Yna byddwn yn cysylltu â chi i gymryd eich taliad dros y ffôn ac os bydd angen gwiriad DBS arnoch gallwn ddechrau'r broses â'n darparwr ar-lein.

Os byddwch yn cyflwyno eich cais drwy'r post dylech gynnwys tystysgrifau eich cymwysterau er mwyn i ni allu asesu eich cymhwysedd.

## C9. Rwy'n gweithio fel gofalwr plant yn Lloegr/yr Alban, a allaf wneud cais i gael fy nghymeradwyo?

Mae'r Cynllun Cymeradwyo Gofal Plant yn y Cartref yn gymwys i Gymru yn unig. Fodd bynnag, os ydych chi'n byw yn Lloegr neu yn yr Alban ac yn gofalu am blant yng Nghymru gallwch wneud cais i fod yn ofalwr plant cymeradwy.

## C10. Beth all rhywun ei wneud os na chânt eu cymeradwyo?

Yn y lle cyntaf gall gofalwyr plant ofyn i'r Corff Cymeradwyo ailystyried ei benderfyniad. Os nad yw'r gofalwr plant yn fodlon â'r penderfyniad ar ôl y broses apelio fewnol hon, gall apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf.

Os hoffech apelio rhaid gwneud hynny drwy anfon cais ysgrifenedig at Ysgrifennydd y Tribiwnlys Haen Gyntaf yn Mowden Hall, Staindrop Road, Darlington DL3 9BG

## C11. Sut mae gwybod a yw gofalwr plant wedi'i gymeradwyo?

Bydd pob gofalwr plant cymeradwy yn cael llythyr Cymeradwyo yn nodi ei enw, cyfnod dilysrwydd a rhif adnabod unigryw. Pan fyddwch yn cyflogi gofalwr dylech ofyn iddo gyflwyno'r llythyr hwn i chi fel tystiolaeth o'i gymeradwyaeth.

## C12. Sut mae dod o hyd i ofalwyr cymeradwy yn fy ardal?

Gallwch gysylltu â'ch Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol i ddod o hyd i ofalwyr cymeradwy yn eich ardal.

## C13. Pa fesurau diogelu fydd ar gael i ofalwr plant cymeradwy sy'n gweithio yng nghartref y rhiant os bydd y cartref yn beryglus i'r plentyn neu'r gofalwr plant?

Mater i'r gofalwr plant a'r rhieni fydd nodi unrhyw risgiau.

Dylai gofalwyr plant cymeradwy sicrhau eu bod yn ymwybodol o Weithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan am eu bod yn ymwneud â phlant sy'n wynebu risg, egwyddorion diogelu a'r ddyletswydd i roi gwybod am blentyn sy'n wynebu risg o gael ei gam-drin, ei esgeuluso a/neu ei niweidio.

## C14. Beth fydd y corff cymeradwyo yn ei wneud os bydd yn cael gwybod bod gofalwr plant cymeradwy wedi niweidio plentyn?

Hysbysu'r galwr i roi gwybod i'r Awdurdod priodol. Cymryd manylion y gofalwr plant a'i gyfeiriad a throsglwyddo'r wybodaeth i'r Gwasanaethau Cymdeithasol lleol. Pan roddir gwybod bod awdurdod priodol yn ymchwilio i'r cyhuddiadau, gall AGC dynnu'r gymeradwyaeth yn ôl ar unrhyw adeg yn ystod yr

ymchwiliad. Os bydd yr ymchwiliad yn canfod nad oedd y gofalwr plant yn euog o'r cyhuddiadau, gall y gofalwr plant wneud cais arall am gymeradwyaeth.

## C15. A fydd y gofal plant a ddarperir gan ofalwr a gymeradwywyd gan y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yn gymwys am gymorth o fewn elfen gofal plant Credydau Treth Gwaith/Credyd Cynhwysol?

Mae gofal plant a ddarperir gan ofalwr cymeradwy dan delerau'r cynllun hwn, sy'n darparu gofal yng nghartref un o'r plant y mae'n gofalu amdanynt, yn ofal cymwys at ddibenion cyfrifo cymhwysedd ar gyfer elfen gofal plant Credyd Treth Gwaith/Credyd Cynhwysol ac ar gyfer y buddiannau cyfraniadau Yswiriant Gwladol a threth sy'n gysylltiedig â defnyddio talebau gofal plant cyflogwyr.

Gall nanis sydd ar y cynllun cymeradwyo hefyd gofrestru ar-lein i gael taliadau rhieni drwy Ofal Plant Di-dreth.

Ar ôl i AGC gymeradwyo ymgeisydd ar gyfer y cynllun, rydym yn anfon llythyr cymeradwyo at y darparwr gofal plant yn y cartref a bydd y wybodaeth hon yn cael ei rhannu wedyn â CThEF. Nid yw AGC yn gysylltiedig â'r broses o'r pwynt hwn ymlaen.

Mae CThEF yn trosglwyddo'r wybodaeth hon i'r tîm Gofal Plant Di-dreth. Bydd angen i'r darparwr gofal plant yn y cartref gofrestru â'r tîm Gofal Plant Di-dreth cyn y gall y cyflogwr ddechrau hawlio'r cymorth hwn.

Er mwyn gwneud hyn bydd angen i'r darparwr gofal plant yn y cartref gysylltu â Gofal Plant Di-dreth ar ‘*0300 123 4097*’, nodi ei fod yn ddarparwr gofal plant yn y cartref cymeradwy a gofyn iddynt chwilio amdano drwy ddefnyddio'r Rhif Cwsmer ar y llythyr cymeradwyo gan AGC a'i god post. Yna bydd Gofal Plant Di-dreth yn anfon e-bost at y darparwr gofal plant yn y cartref gyda phecyn croeso.

## C16. Beth am bobl sy'n gofalu am blant y maen nhw'n perthyn iddynt? A fydd rhieni'r plant yn gallu hawlio elfen gofal plant Credyd Treth Gwaith/Credyd Cynhwysol?

Fel arfer ni allwch hawlio cymorth ar gyfer gofal plant a ddarperir gan berthnasau, hyd yn oed os ydynt wedi'u cymeradwyo.

## C17. Pryd allwch chi hawlio am ofal plant a ddarperir gan berthnasau?

Gallwch hawlio elfen gofal plant Credyd Treth Gwaith/Credyd Cynhwysol ar gyfer gofal plant a ddarperir gan berthynas os bydd y berthynas yn:

- ddarparwr gofal plant, wedi'i gymeradwyo o dan y Cynllun Cymeradwyo Gofal Plant, sy'n gofalu am eich plentyn y tu allan i gartref eich plentyn - ond rhaid iddo hefyd ofalu am o leiaf un plentyn arall nad yw'n perthyn iddo.

I gael mwy o wybodaeth, ewch i wefan CThEF.

## C18. A oes angen i mi gael fy nghymeradwyo os ydw i'n cael fy nhalu mewn talebau gofal plant?

Nac oes, ond dim ond os ydych wedi cael eich cymeradwyo y gall eich cyflogwr gael budd o arbedion cyfraniadau Yswiriant Gwladol a threth. Am wybodaeth am dreth ac Yswiriant Gwladol ewch i wefan CThEF.

## C19. A fydd y gofal plant a ddarperir gan ofalwr a gymeradwywyd gan y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yn gymwys i gael cyllid y Cynnig Gofal Plant?

Na fydd, ni all gofalwr plant ar y cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ddarparu lleoedd a ariennir drwy Gynnig Gofal Plant Cymru.

## C20. Pa mor hir yw'r broses adnewyddu?

Rydym yn cynghori gofalwyr i ailymgeisio am gymeradwyaeth chwech i wyth wythnos o flaen llaw.
Er mwyn i rieni gadw eu hawliau parhaus i gredydau treth/Buddion Cyffredinol / talebau gofal plant cyflogwyr, mae'n rhaid i'w nani neu eu gofalwr barhau i fod wedi'i gymeradwyo neu'i gofrestru.

*Bydd y rhai sy'n dilyn y cyngor hwn yn fwy tebygol o adnewyddu eu cymeradwyaeth yn hwylus yn dechrau o'r dyddiad y daw eu hen gymeradwyaeth i ben.*

Bydd angen i chi wneud cais am gymeradwyaeth bob blwyddyn a bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth bod eich hyfforddiant cymorth cyntaf yn gyfredol. Fodd bynnag, os oes gennych dystysgrif DBS fanwl ar gyfer y gweithlu cywir a'ch bod eisoes wedi tanysgrifio i'r Gwasanaeth Diweddaru, ni fydd angen i chi gael gwiriad DBS newydd bob tair blynedd.